Gwnewch Le i Wenyn

Garddwyr

Gofalwch ar ôl ein gwenyn brodorol

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn ymwybodol o gacwn a gwenyn mêl sy'n byw mewn nythfeydd. Fodd bynnag, mae Prydain yn gartref i dros 200 o rywogaethau gwenyn gwyllt y cyfeirir atynt fel rheol fel gwenyn unig. Mae'r math hwn o wenynen yn byw fel unigolyn, gan wneud nyth mewn cloddiau, gwrychoedd, morter sy'n briwsioni, wal garreg sych neu fanc tywodlyd. Mae rhai eraill yn nythu yng nghoesau planhigion wedi gwywo neu dwneli wedi'u tyllu mewn pren marw gan chwilod. Os byddwch yn dod o hyd iddynt, gadewch lonydd iddynt. Mae nythfeydd yn deyrngar iawn i'w nythoedd ac wedi bod yn byw ynddynt ers blynyddoedd. Maen nhw hefyd yn peillio planhigion ac yn rhan o fioamrywiaeth y DU. Nid yw gwenyn unig yn pigo nac yn heidio.

Dylai fod gan bob gardd flwch gwenyn

Gallwch helpu'n gwenyn brodorol trwy wneud blwch gwenyn i'ch gardd. Yn syml, driliwch dyllau hyd at 12mm o ddiamedr mewn hen foncyffion, blociau o bren a brics tai.

Pentyrrwch nhw mewn man sych a chysgodol. Neu, torrwch fambŵ yn ddarnau 15cm o hyd a chlymwch nhw at ei gilydd gyda llinyn i wneud siâp silindr tua maint tun ffa pob neu llenwch bot blodau. Bydd y gwenyn yn cropian i mewn ac yn preswylio yno. Os byddant yn methu dod o hyd i'r blwch eleni, gadewch eich blwch i fyny. Bydd y gwenyn yn sicr o ddod o hyd iddo'r flwyddyn nesaf!

Planhigion i ddenu gwenyn i'ch gardd

Mae pobl yn aml yn gofyn beth fydd yn denu gwenyn i'w gardd – edrychwch ar ein taflen "Planhigion Gardd i Wenyn" i gael rhestrau o rai o'r blodau a'r planhigion cyfeillgar i wenyn y gallech eu hystyried. Gallwch helpu hefyd trwy annog awdurdodau lleol yn eich ardal i dyfu planhigion cyfeillgar i wenyn mewn mannau cyhoeddus a pheidio â thorri ymylon hyd nes i hadau planhigion gwyllt gael eu gwasgaru.

Wrth leoli blodau, coed a phrysgwydd, dewiswch safle heulog a chysgodol ac ystyriwch eu plannu mewn clystyrau yn hytrach nag ar ben eu hunain.

Pryfleiddiaid

Osgowch ddefnyddio pryfleiddiaid neu blaleiddiaid. Maent yn lladd gwenyn! Defnyddiwch ddulliau rheoli pla biolegol.

Dim Gardd?

Nid oes ots gan wenyn! Plannwch mewn tybiau neu focsys ffenestri a rhowch flychau gwenyn ar flociau o fflatiau, blociau swyddfeydd ac ysgolion.

Heidiau

Mae gwenyn mêl yn heidio pan fyddant yn chwilio am gartref newydd. Gallwch adnabod haid oherwydd mae'r gwenyn yn hongian mewn siâp pêl rygbi ar gangen coeden neu'n clystyru ar byst ac mewn cloddiau. Er ei fod yn edrych yn ddramatig, mae'r gwenyn yn dawel fel rheol ac felly'n annhebygol o'ch pigo. Cysylltwch â'ch cymdeithas gwenynwyr lleol a fydd yn trefnu i'r gwenynwr gasglu'r haid a phasio'r gwenyn ymlaen i wenynwr newydd.

Sut ydw i'n cymryd rhan?

Bydd gan y cymdeithasau gwenynwyr lleol enwau gwenynwyr sy'n chwilio am safleoedd.
Mae'r manylion cyswllt
i Gymru yn www.wbka.com
ac i Loegr yn www.bbka.org.uk.

Ffermwyr, Tirfeddianwyr ac Awdurdodau Lleol

Lleoli Gwenynfa

Mae gwenyn mêl dan bwysau mawr o lygredd, pla a cholli cynefinoedd. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r diddordeb mewn cadw gwenyn wedi cynyddu ac mae nifer y bobl sy'n ymhél â'r hobi'n tyfu. Fodd bynnag, mae ardaloedd sy'n addas i leoli gwenynfeydd yn dirywio. Anogwn bob ffermwr, tirfeddiannwr ac awdurdod lleol i roi ystyriaeth ddifrifol i wahodd gwenynwr lleol i sefydlu gwenynfa ar eu tir.

Beth fydd ar wenynwr ei angen?

Ardal o dir ar ochr cae, mewn coedlan, perllan neu ardd fawr neu barc; wedi'i hamddiffyn yn ddelfrydol o wyntoedd cryfion, gyda mynediad hawdd i gerbydau ac i ffwrdd o lwybrau troed cyhoeddus.

Os oes da byw yn y cae, dylid ffensio'r ardal gan fod anifeiliaid yn rhwbio yn erbyn y cychod ac yn eu gwthio drosodd. Dylid cael cyflenwad dŵr wrth law, e.e. pwll neu nant ond mae cafnau'r anifeiliaid yn addas.

Sut byddaf yn elwa?

Y peth amlycaf fydd y cynnydd mewn peilliad. Bydd hyn yn arbennig o bwysig i ffermwyr cnydau fel had olew rêp, ffa'r cae a choed ffrwythau. Fodd bynnag, mae gwenyn o fantais i'n gwrychoedd, gan ddarparu cynnydd mewn peilliad ac felly, mwy o ffrwythau i adar a mamaliaid.

Ydy'r gwenynwyr yn talu rhent?

Ydyn, mae'r trefniant rhwng y tirfeddiannwr a'r gwenynwr ac mae llawer yn cytuno talu mewn potiau o fêl.

Diolch am eich help!

Cymdeithas Gwenynwyr Llambed a'r Cylch
lampeterbeekeepersassociation.co.uk/cy

gyda diolch i
Gwenynwyr
Pen-y-Bont
BRIDGEND BEEKEEPERS
GWENYNWYR PEN-Y-BONT